

Rhif: WG31268



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Cod Erlyn Llywodraeth Cymru

Dyddiad cyhoeddi: 24 Mai 2017
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 16 Awst 2017

Trosolwg

Diben yr ymgynghoriad hwn yn ceisio amrywiaeth o safbwyntiau ar God Erlyn arfaethedig Llywodraeth Cymru.

Sut i ymateb

Gallwch ymateb drwy anfon eich ymateb ysgrifenedig i'r cyfeiriad isod neu drwy e-bost i'r cyfeiriad a ddarparwyd.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Emma Baff

Ystafell 1.22
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays 1
Caerdydd
Cf10 3NQ

emma.baff@wales.gsi.gov.uk

Diogelu data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch i ni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi

gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw neu eich cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd weld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid i ni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn i ni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, mae hon yn ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Pwrpas yr Ymgynghoriad hwn

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio amrywiaeth o safbwyntiau ar God Erlyn arfaethedig Llywodraeth Cymru (y "Cod"). Bydd y Cod yn rhoi arweiniad i Erlynwyr ar yr egwyddorion i'w defnyddio wrth wneud penderfyniadau ynghylch erlyniadau Llywodraeth Cymru. Caiff y Cod hwn ei gyhoeddi gan y Cwnsler Cyffredinol.

Mae'r Cwnsler Cyffredinol, yn rhinwedd adran 45 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn aelod o Lywodraeth Cymru. Mae Adran 67 y Ddeddf yn galluogi'r Cwnsler Cyffredinol i gychwyn erlyniadau yn enw'r Cwnsler Cyffredinol. Gallai achlysuron godi pan fydd y grym i gychwyn erlyniad yn cael ei gadw i Weinidogion Cymru. Yn yr amgylchiadau hynny, caiff erlyniadau eu cychwyn yn enw Gweinidogion Cymru.

Mae drafft o'r Cod wedi'i atodi i'r ddogfen ymgynghoriad hon.

Beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd?

Ar hyn o bryd mae penderfyniad ynghylch a ddylai erlyniad gan Lywodraeth Cymru gael ei gychwyn neu ddod i ben yn cael ei wneud yn unol â Chod Gwasanaeth Erlyn y Goron ar gyfer Erlynwyr y Goron (Cod GEG").

Pam cynnig newid?

Fel rhan o werthusiad anffurfiol o weithdrefnau, nodwyd yr angen am god erlyn sy'n ystyried swyddogaethau erlyn penodol Llywodraeth Cymru.

Mae'r Cod arfaethedig wedi'i seilio ar God presennol GEG. Fodd bynnag, mae'r Cod yn rhoi ystyriaeth benodol i swyddogaethau erlyn Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, mae'r ffactorau'n ymwneud â budd y cyhoedd â chysylltiad agos â'r math o erlyniadau y gall y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidogion Cymru eu cychwyn.

Rydym yn croesawu sylwadau gan bawb sydd â diddordeb yn y maes hwn. Rydym wedi nodi nifer o gwestiynau yr ydym yn gwahodd sylwadau penodol arnynt:

1. A yw swyddogaethau'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidogion Cymru yng nghyswllt erlyniadau Llywodraeth Cymru yn cael eu hesbonio'n ddigon eglur?
2. A yw cam 'tystiolaeth ddigonol' y Prawf Erlyn yn cael ei esbonio'n ddigon eglur?
3. A yw cam 'budd y cyhoedd' y Prawf Erlyn yn cael ei esbonio'n ddigon eglur?
4. A yw ffactorau budd y cyhoedd yn cael eu hesbonio'n ddigon eglur?

5. A yw'r berthynas rhwng y Cod a'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron yn cael ei hesbonio'n ddigon eglur?
6. A oes unrhyw ran o'r Cod a ddylai gael ei ehangu yn eich barn chi, ac os felly, beth ddylai gael ei gynnwys yno?

**Ffurflen Ymateb
i'r
Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

E-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Cwestiwn 1: A yw swyddogaethau'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidogion Cymru yng nghyswllt erlyniadau Llywodraeth Cymru yn cael eu hesbonio'n ddigon eglur?

Cwestiwn 2: A yw cam 'tystiolaeth ddigonol' y Prawf Erlyn yn cael ei esbonio'n ddigon eglur?

Cwestiwn 3: A yw cam 'budd y cyhoedd' y Prawf Erlyn yn cael ei esbonio'n ddigon eglur?

Cwestiwn 4: A yw ffactorau budd y cyhoedd yn cael eu hesbonio'n ddigon eglur?

Cwestiwn 5: A yw'r berthynas rhwng y Cod a'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron yn cael ei hesbonio'n ddigon eglur?

Cwestiwn 6: A oes unrhyw ran o'r Cod a ddylai gael ei ehangu yn eich barn chi, ac os felly, beth ddylai gael ei gynnwys yno?

Cwestiwn 7: Hoffem gael eich barn ar yr effaith y byddai'r Cod yn ei chael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar

- i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac
- ii) ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut allai effeithiau cadarnhaol gael eu cynyddu, neu liniaru effeithiau negyddol?

Cwestiwn 8: Esboniwch hefyd, os gwelwch yn dda, sut yn eich barn chi y gallai'r Cod arfaethedig gael ei lunio neu ei newid er mwyn iddo

- i) gael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a
- ii) dim effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn 9: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y gofod hwn i'w nodi, os gwelwch yn dda:

Mae'n debygol y caiff ymatebion i ymgynghoriadau eu cyhoeddi, ar y we neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb fod yn ddienw, ticiwch yma, os gwelwch yn dda:



